| | |
|---|---|
| Fersiwn | 10 |
| Dyddiad Diwygio Diwethaf | Medi 2025 |

Iechyd a Diogelwch
Cyngor Rhondda Cynon Taf, gweithio gyda chi, gweithio gyda'n gilydd

gweithio'nwell
workwell

Health and Safety
Rhondda Cynon Taf Council, working with you, working together

# HS 1

# Polisi Iechyd a Diogelwch Cyffredinol

RHONDDA CYNON TAF

| RHEOLI'R DDOGFEN | |
|---|---|
| **ENW'R POLISI** | **Polisi Iechyd a Diogelwch Cyffredinol** |
| Adran | Adnoddau Dynol |
| Rhif Ffôn | 01443 425456 |
| Dyddiad Cychwynnol Cyflwyno'r Polisi | Mai 1996 |
| Swyddog Adolygu | Adrian Perry |
| Dyddiad Adolygu | Medi 2027 |
| Dyddiad yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb | 2008 |
| | |
| **HANES DIWYGIO** | |
| Dyddiad | Diwygiwyd gan |
| Mai 1996 | Gerwyn Hogben |
| Mawrth 2009 | Gerwyn Hogben |
| Chwefror 2010 | Mike Murphy |
| Ebrill 2011 | Mike Murphy |
| Mai 2014 | Mike Murphy |
| Gorffennaf 2016 | Mike Murphy |
| Tachwedd 2017 | Mike Murphy |
| Mawrth 2021 | Mike Murphy |
| Mawrth 2023 | Stephen Humphreys |
| Medi 2025 | Adrian Perry |
| | |
| **CYMERADWYO'R DDOGFEN** | |
| Mae'r ddogfen yma wedi cael ei chymeradwyo gan: | |
| Uwch Garfan Rheoli Adnoddau Dynol | |
| Rheolwyr y Cyngor | |
| Cabinet | |

CYNNWYS


Polisi Iechyd a Diogelwch Cyffredinol ................................................................ 1

1. Nod y Polisi ........................................................................................... 1

2. Rhan A – Datganiad Polisi (Datganiad o Fwriad) ............................................... 1

3. Rhan B – Y Sefydliad (Cyfrifoldebau dros Iechyd a Diogelwch)............................

Prif Weithredwr ......................................................................................... 4

Cyfarwyddwr Cyfadran ................................................................................ 4

Cyfarwyddwyr/Cyfarwyddwyr Gwasanaeth ....................................................... 5

Penaethiaid Gwasanaethau ........................................................................... 5

Rheolwyr Llinell/Goruchwylwyr ....................................................................... 5

Gweithwyr ................................................................................................ 6

4. Rhan C – Trefniadau (Systemau a Gweithdrefnau)

Cyngor a Chymorth Iechyd a Dioglewch ........................................................... 7

Cynrychiolwyr Diogelwch a Phwyllgorau Diogelwch ............................................ 7

Systemau Diogel o Waith ............................................................................. 7

Asesiad Risg ............................................................................................ 7

Archwiliadau Statudol ................................................................................. 8

Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) ................................................................... 8

Digwyddiadau/Damweiniau ........................................................................... 8

Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) ................................................... 9

Offer ....................................................................................................... 9

Storio Deunydd .......................................................................................... 9

Peirianneg Sifil a Gwaith Adeiladu ................................................................. 9

Gwybodaeth, Cyfarwyddiad, Hyffrddiant a Goruchwyliaeth .................................. 9

Asbestos ................................................................................................. 10

Gweithio Mewn Mannau Cyfyng ..................................................................... 10

Iechyd Galwedigaethol ................................................................................ 10

Gweithio ar Uchder ..................................................................................... 10

Gweithio Ger neu ar Briffyrdd ........................................................................ 11

Rheoli Sŵn ............................................................................................... 11

Cymorth Cyntaf .......................................................................................... 11

Gwarchod Peiriannau .................................................................................. 11

Codi a Chario ........................................................................................ 11
Mamau Newydd a Menywod Beichiog ............................................................ 11
Trwyddedau ar gyfer Gweithio ........................................................................ 11
Rheoli’r Amgylchedd ....................................................................................... 12
Tân ................................................................................................................. 12
Cyfarpar Sgrîn Arddangos (DSE) ..................................................................... 12
Diogelwch Trydanol ......................................................................................... 12
Contractwyr ac Is-gontractwyr ......................................................................... 12
Straen yn y Gweithle ....................................................................................... 12
Trais yn y Gweithle ......................................................................................... 13
Osgoi Perygl o Wasanaethau Tanddaearol a Cheblau Uwchben ..................... 13
Gweithio yn yr Awyr Agored a Chanser y Croen ............................................. 13
Dirgryniad Llaw-Fraich ................................................................................... 13
Clefyd y Lleng Filwyr (Legionella) ................................................................... 13
Datganiadau’r Polisi Iechyd a Dioglewch Corfforaethol .................................... 14
Diweddaru ...................................................................................................... 15
Rhestr Wirio i Reolwyr ..................................................................................... 16

## POLISI IECHYD A DIOGELWCH CYFFREDINOL

Cafodd y datganiad yma ei gyhoeddi yn unol ag Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati. Deddf 1974, rheoliadau cysylltiedig, deddfwriaeth iechyd a diogelwch a 'Chodau Ymarfer sydd wedi'u Cymeradwyo' eraill sy'n berthnasol

### 1. NOD Y POLISI

Darparu amgylchedd gwaith diogel ac iach i weithwyr Cyngor Taf Rhondda Cynon a derbyn ei gyfrifoldeb am iechyd a diogelwch eraill sydd â'r modd eu heffeithio gan ei weithgareddau gwaith.

### 2. RHAN A - DATGANIAD POLISI (DATGANIAD O FWRIAD)

Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn cydnabod ac yn derbyn ei rwymedigaethau cyfreithiol ynghyd â'i ddyletswyddau moesol ac economaidd i ddarparu amgylchedd gwaith diogel ac iach i'w holl weithwyr, yn ogystal ag eraill.

Mae hyrwyddo safonau iechyd, diogelwch a lles a'u gwella yn barhaus yn cael ei ystyried yn amcan hanfodol i reolwyr a gweithwyr ar bob lefel. Bydd ymdrechion a chydweithrediad yr holl weithwyr, contractwyr a defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu hystyried yn hanfodol i ganiatáu i waith gael ei wneud heb berygl ac er mwyn sicrhau llwyddiant wrth ddarparu gwasanaethau.

Bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau bod gofynion statudol yn cael eu bodloni trwy lunio, gweithredu a datblygu polisi, ynghyd â gosod amcanion a safonau cyflawniad. Bydd camau priodol yn cael eu cymryd i danategu'r ymrwymiad yma.

Mae'r Cyngor yn cydnabod ei gyfrifoldebau dan y Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith, yn enwedig y ddyletswydd i gynnal asesiadau risg. I'r perwyl yma, bydd asesiadau risg addas a digonol yn cael eu cynnal dan y ddeddfwriaeth yma, a deddfwriaeth benodol arall, gan sicrhau bod cofnodion clir a chywir yn cael eu cadw. Bydd asesiadau risg yn cael eu hadolygu'n rheolaidd neu yn sgil newid.

Bydd y Cyngor yn ymdrechu i weithredu a chynnal mesurau fel y bydd gweithgareddau'n cael eu rheoli i osgoi risg ddiangen neu annerbyniol a bydd yn sicrhau, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, fod iechyd, diogelwch a lles yr holl weithwyr neu eraill a allai gael eu heffeithio gan ei weithgareddau gwaith.

Bydd y Cyngor yn ymdrechu i sicrhau lefelau digonol o gymhwysedd ym maes iechyd a diogelwch. Bydd gweithwyr ar bob lefel yn derbyn gwybodaeth, cyfarwyddiadau, hyfforddiant, goruchwylio a systemau cyfathrebu priodol i sicrhau eu hiechyd a'u diogelwch.

Bydd y Cyngor yn cynnwys ac yn ymgynghori â gweithwyr yn weithredol ac yn ceisio sicrhau bod ymgynghoriad yn cael ei gynnal ag undebau llafur cydnabyddedig a chynrychiolwyr gweithwyr a bydd yn hyrwyddo sefydlu

pwyllgorau diogelwch, fel y bo'n briodol. Bydd y Cyngor yn rhoi gwybod i’r rhai sydd wedi'u crybwyll uchod am risgiau sy'n deillio o weithgareddau gwaith y gweithwyr, y mesurau sydd ar waith neu'r cynigion i reoli'r risgiau yma, a'r hyn y dylen nhw ei wneud os ydyn nhw'n agored i risg, gan gynnwys gweithdrefnau brys.

Bydd gweithwyr yn ymarfer pob rheolaeth bersonol cyflawni eu gwaith mewn modd sy'n ymdrechu i ofalu am ddiogelwch eu hunain a diogelwch pobl eraill. Bydd uwch reolwyr yn sicrhau bod cyfrifoldebau priodol yn cael eu dirprwyo trwy eu strwythur rheoli llinell a bod mecanweithiau ymgynghori ffurfiol ar iechyd a diogelwch ar waith.

Bydd gwaith sy'n gofyn am wiriadau meddygol neu iechyd, gan gynnwys sgrinio cyn cyflogi ar gyfer gweithwyr newydd, yn cael ei ddarparu gan Uned Iechyd a Lles Galwedigaethol mewnol. Bydd y ddarpariaeth yma hefyd yn berthnasol i staff sy'n parhau i fod yn agored i risgiau iechyd hyd yn oed ar ôl i fesurau rheoli gael eu rhoi ar waith. Mae'r Cyngor yn deall nad yw mesurau rheoli bob amser yn ddibynadwy, er gwaethaf gwaith gwirio, hyfforddiant a chynnal a chadw priodol. Mae risgiau iechyd sy'n gofyn am gadw goruchwyliaeth ar iechyd yn cynnwys sŵn, dirgryniad a sylweddau sy'n peri perygl i’ch iechyd.

Bydd cyflawniad iechyd a diogelwch yn cael ei fonitro a'i adolygu i sicrhau bod safonau sy wedi'u cytuno arnyn nhw'n cael eu cynnal.

Bydd y Cyngor yn cymryd pob cam rhesymol i gyflawni ei gyfrifoldebau a bydd yn talu sylw arbennig i ddarparu a chynnal:

- peiriannau, offer a systemau gwaith sy'n bodloni gofynion statudol hysbys ac sy'n ddiogel;
- trefniadau diogel ar gyfer defnyddio, trin, storio a chludo eitemau a sylweddau;
- digon o wybodaeth, cyfarwyddyd, hyfforddiant a goruchwyliaeth i alluogi pob gweithiwr i osgoi peryglon a chyfrannu'n gadarnhaol at eu hiechyd a diogelwch eu hunain yn y gwaith;
- man gwaith diogel a mynediad diogel i mewn ac allan o'r gwaith;
- amgylchedd gwaith iach;
- cyfleusterau lles digonol.

Bydd adnoddau digonol yn cael eu darparu er mwyn sicrhau y bydd darpariaeth briodol ar gyfer iechyd a diogelwch er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei rwymedigaethau statudol.

Bydd pob rheolwyr ar bob lefel yn uniongyrchol gyfrifol am gyflawni nodau'r polisi, pob lefel yn atebol i'r un uchod ac yn gyfrifol am yr un isod.

Byddwn ni'n sicrhau bod pob un o'n gweithwyr yn effro i'r datganiad polisi. Bydd yn cael ei adolygu o bryd i'w gilydd ac yn destun ychwanegiadau neu

addasiadau, ble'n addas.

**Llofnod:**



**Paul Mee**
**Prif Weithredwr**

**Dyddiad:**

07/10/2025

## 3. RHAN B - Y SEFYDLIAD (CYFRIFOLDEBAU DROS IECHYD A DIOGELWCH)

### PRIF WEITHREDWR

Y Prif Weithredwr sy'n bennaf gyfrifol am iechyd a diogelwch. Yn benodol, bydd y Prif Weithredwr yn sicrhau:

- bod adnoddau digonol ar gael i gynnal iechyd a diogelwch;
- bod cyfrifoldebau iechyd a diogelwch yn cael eu gwneud yn glir i uwch reolwyr;
- bod iechyd a diogelwch yr un mor bwysig i swyddogaethau rheoli eraill;
- bod y mesurau sy'n cael eu cymryd ar gyfer gweithredu'r Polisi yn cael eu sefydlu a'u cadw dan adolygiad;
- bod dull rhagweithiol o reoli iechyd a diogelwch yn cael ei gynnal;
- bod rhwymedigaethau statudol y Cyngor yn cael eu cyflawni;
- bod iechyd a diogelwch wedi'i gynnwys mewn cynlluniau ac adroddiadau sy'n cael ei gyflwyno gan Gyfarwyddwyr Cyfadran;
- bod cyfathrebu effeithiol yn cael ei gynnal o fewn y Cyngor.

### CYFARWYDDWYR CYFADRAN

Bydd Cyfarwyddwyr Cyfadran yn atebol i'r Prif Weithredwr a byddan nhw'n gyfrifol am iechyd a diogelwch gweithwyr sy dan eu rheolaeth. Yn benodol, byddan nhw'n sicrhau:

- bod adnoddau digonol ar gael i gynnal iechyd a diogelwch;
- Bod Cyfarwyddwyr / Cyfarwyddwyr Gwasanaeth yn gweithredu ac yn datblygu, lle bo hynny'n briodol, y datganiadau Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn strategaethau maes gwasanaeth;
- bod iechyd a diogelwch wedi'i gynnwys mewn cynlluniau ac adroddiadau a gyflwynir i'r Prif Weithredwr;
- bod dull rhagweithiol o reoli iechyd a diogelwch yn cael ei gynnal;
- bod cyfathrebu effeithiol yn cael ei gynnal o fewn y Gyfadran;
- monitro ac arfarnu cyflawniad iechyd a diogelwch uwch reolwyr sydd o dan eu rheolaeth a sicrhau eu bod yn effro i'w cyfrifoldebau;
- lle bo hynny'n briodol, bydd gweithgorau iechyd a diogelwch yn cael eu sefydlu yn y meysydd gwasanaeth.

## CYFARWYDDWYR/CYFARWYDDWYR GWASANAETH

Bydd Cyfarwyddwyr / Cyfarwyddwyr Gwasanaeth yn atebol i Gyfarwyddwr y Gyfadran ac yn gyfrifol am iechyd a diogelwch gweithwyr sy dan eu rheolaeth. Yn benodol, byddan nhw'n sicrhau:

- bod cyngor yn cael ei roi i Gyfarwyddwr y Gyfadran ar ba adnoddau sy'n angenrheidiol ar gyfer iechyd a diogelwch;
- bod cydgysylltu iechyd a diogelwch yn effeithiol yn eu maes gwasanaeth;
- bod dull rhagweithiol o reoli iechyd a diogelwch yn cael ei gynnal;
- bod sianelau cyfathrebu iechyd a diogelwch effeithiol ar gael;
- bod iechyd a diogelwch wedi'i gynnwys mewn cynlluniau ac adroddiadau a baratowyd ar gyfer Cyfarwyddwr y Gyfadran;
- bod y Datganiadau Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn cael eu gweithredu a'u datblygu, lle bo hynny'n briodol, yn strategaethau maes gwasanaeth;
- bod cyflawniad iechyd a diogelwch yn eu maes gwasanaeth yn cael ei fonitro.

## PENAETHIAID GWASANAETHAU

Bydd penaethiaid gwasanaeth yn atebol i'r Cyfarwyddwr/Cyfarwyddwr Gwasanaeth ac yn gyfrifol am iechyd a diogelwch gweithwyr sydd o dan eu rheolaeth. Yn benodol, byddan nhw'n sicrhau:

- eu bod yn cydlynu'r system adrodd ar ddigwyddiadau/damweiniau yn y maes gwasanaeth ac yn cynorthwyo i ymchwilio ac atal damweiniau;
- eu bod yn cynghori ac yn cysylltu â rheolwyr llinell ac eraill ar faterion iechyd a diogelwch ac asesu risgiau iechyd a diogelwch;
- eu bod yn cynorthwyo i lunio data iechyd a diogelwch i'w cynnwys mewn cynlluniau ac adroddiadau, gan gynnwys rhai sy'n cael eu paratoi ar gyfer Cyfarwyddwyr / Cyfarwyddwyr Gwasanaeth;
- bod archwiliadau iechyd a diogelwch yn cael eu cynnal a bod camau priodol yn cael eu cymryd i annog arferion gweithio diogel;
- bod gweithwyr yn derbyn hyfforddiant iechyd a diogelwch digonol;
- eu bod yn cyfathrebu effeithiol â'u maes gwasanaeth;
- bod dull rhagweithiol o reoli iechyd a diogelwch yn cael ei gynnal;
- eu bod yn monitro cyflawniad iechyd a diogelwch yn eu maes gwasanaeth.

## RHEOLWYR LLINELL/GORUCHWYLWYR

Bydd pob rheolwr llinell/goruchwyliwr, yn rhan annatod o'u swyddogaeth reoli arferol, yn paratoi rhaglenni sy'n nodi amcanion ar gyfer gwella iechyd a diogelwch o fewn eu maes cyfrifoldeb. Dylai'r rhaglenni gael eu paratoi mewn

ymgynghoriad â'r lefel reoli nesaf, a thrwy hynny gyfrannu at gynlluniau ac adroddiadau iechyd a diogelwch y Gyfadran.

Rhaid i reolwyr llinell/goruchwylwyr ddangos safonau uchel wrth drefnu gweithleoedd a gweithgareddau. Byddan nhw'n arwain ac yn cymryd rhan weithredol mewn asesiadau risg, cyrsiau ymsefydlu, arolygiadau, ymchwiliadau a gofynion hyfforddi a byddan nhw'n sicrhau bod gweithwyr yn cael cyfle i dderbyn cyngor a chymorth. Bydd rheolwyr llinell/goruchwylwyr yn sicrhau bod systemau ffurfiol ar waith i adolygu asesiadau risg ac ar gyfer darparu goruchwyliaeth ddigonol, yn enwedig ar gyfer gweithwyr ifainc, bregus neu ddibrofiad.

Bydd pob rheolwr llinell/goruchwyliwr ac eraill wrth ddirprwyo ar eu rhan yn gyfrifol am iechyd a diogelwch ym mhob maes sydd o dan eu rheolaeth a byddan nhw, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol:

- fod yn gyfrifol am weithredu a chyfrannu at ddatblygu systemau gweithio diogel y Gyfadran;
- sefydlu cyfrifoldebau a pherthnasoedd sy'n hyrwyddo ac yn cynnal diwylliant iechyd a diogelwch cadarnhaol trwy sicrhau cymhelliant a chyfranogiad staff er mwyn rheoli risgiau;
- datblygu cynlluniau a gosod safonau cyflawniad sy'n adlewyrchu canlyniadau'r asesiadau risg, gyda'r nod o reoli a dileu unrhyw risg;
- sefydlu systemau a phennu amleddau ar gyfer monitro ac adolygu gweithrediad cynlluniau iechyd a diogelwch a graddau'r cydymffurfiad â safonau a gweithdrefnau cyflawniad;
- ymgyfarwyddo â pholisïau iechyd a diogelwch a chanllawiau cysylltiedig perthnasol â gweithwyr sy dan eu rheolaeth a sicrhau eu bod yn cael eu cyfathrebu;
- monitro a gwerthuso cyflawniad iechyd a diogelwch er mwyn cynyddu dysgu i'r eithaf, a thrwy hynny sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd i wella a datblygu trefniadau ar gyfer iechyd a diogelwch ymhellach;
- diweddaru eu Penaethiaid Gwasanaeth ar iechyd a diogelwch o fewn eu meysydd cyfrifoldeb.

**GWEITHWYR**

Mae'n ofynnol i weithwyr ymddwyn mewn modd diogel bob amser, er mwyn sicrhau eu diogelwch eu hunain a diogelwch eraill yn y gwaith. Yn benodol, byddan nhw'n:

- sicrhau dydyn nhw ddim yn camddefnyddio nac yn ymyrryd yn fwriadol nac yn ddi-hid ag unrhyw beth sy'n cael ei ddarparu er budd iechyd, diogelwch neu les yn unol ag unrhyw ddarpariaeth statudol berthnasol;
- adrodd ar ddigwyddiadau/damweiniau i'w rheolwr;
- cynorthwyo i ymchwilio i ddigwyddiadau/damweiniau;

- mynychu cyrsiau hyfforddiant iechyd a diogelwch yn ôl y gofyn;
- defnyddio'r offer cywir ar gyfer eu swydd;
- defnyddio offer amddiffynnol sy'n cael ei ddarparu;
- cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau rhesymol;
- rhoi gwybod i'w rheolwr am unrhyw sefyllfa waith y gall gynrychioli perygl uniongyrchol i iechyd a diogelwch iddyn nhw eu hunain, gweithwyr eraill neu unrhyw berson arall;
- peidio â chymryd unrhyw risgiau diangen;
- awgrymu ffyrdd o gael gwared ar beryglon;
- cydymffurfio â systemau gwaith diogel;
- peidio ag ymddwyn yn amhriodol/anniogel.

## 4. RHAN C - TREFNIADAU (SYSTEMAU A GWEITHDREFNAU)

Mae'r trefniadau yma'n ategu'r Datganiad Polisi a'r Adrannau Trefniadaeth. Dydyn nhw ddim yn gynhwysfawr a bydd trefniadau penodol sy'n ymwneud â swyddogaethau penodol yn cael eu cyhoeddi'n Gorfforaethol neu gan Gyfarwyddwr y Garfan.

### CYNGOR A CHYMORTH IECHYD A DIOGELWCH

Bydd pobl gymwys yn cael eu cyflogi gan y Cyngor i roi cyngor a chymorth iechyd a diogelwch ble'n addas.

### CYNRYCHIOLWYR DIOGELWCH A PHWYLLGORAU DIOGELWCH

Mae'r Cyngor yn cydnabod y rheoliadau sy'n llywodraethu Cynrychiolwyr Diogelwch a Phwyllgorau Diogelwch a bydd yn cydweithredu'n llawn â'r Undebau Llafur cydnabyddedig wrth roi'r Rheoliadau yma ar waith, ynghyd â'u Cod Ymarfer a'u Nodiadau Canllawiau. Bydd y Cyngor hefyd yn ymgynghori, fel y bo'n briodol, â gweithwyr sydd ddim yn cael eu cynrychioli gan Undeb Llafur.

### SYSTEMAU DIOGEL O WAITH

Bydd systemau gwaith diogel yn cael eu paratoi i sicrhau, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, iechyd, diogelwch a lles gweithwyr y Cyngor ac eraill sydd â'r modd i gael eu heffeithio gan ei weithgareddau gwaith. Bydd systemau gwaith diogel, lle bo hynny'n briodol, yn cael eu dogfennu a'u hadolygu yng ngoleuni unrhyw newid. Pan fydd gwaith yn cael ei wneud sydd â'r modd i arwain at risg sylweddol, er enghraifft, gweithio mewn mannau cyfyng, gweithio ar drydan byw, gweithio ar ffyrdd cyflym, bydd ystyriaeth yn cael ei roi i system 'trwydded i weithio'.

### ASESIAD RISG

Bydd asesiadau risg addas a digonol yn cael eu cynnal ar gyfer yr holl weithgareddau yn y gweithle a'r camau sy'n cael eu cymryd o ganlyniad.

Bydd canfyddiadau arwyddocaol yr holl asesiadau risg yn cael eu cofnodi a'u dogfennu.

Yn ogystal â'r Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith (MHSAW) ynghylch pob risg, mae yna ofynion statudol ar gyfer asesu effeithiau mathau penodol o beryglon. Er mwyn sicrhau bod y gofynion cyfreithiol penodol yn cael eu bodloni ar gyfer asesu risg, bydd Rheoliadau MHSAW yn cael eu defnyddio fel y safon sylfaenol a'r safon i'w ddefnyddio lle bo angen cydymffurfio â rheoliadau penodol eraill ar gyfer asesu risg.

**ARCHWILIAD STATUDOL**

Bydd pob eitem o beiriannau ac offer y mae angen eu harchwilio yn statudol yn cael eu nodi a bydd y person cymwys yn gwneud trefniadau ar gyfer eu harchwilio. Bydd cofnodion llawn o'r archwiliadau yn cael eu cadw.

**CYFARPAR DIOGELU PERSONOL (PPE)**

Lle dydy hi ddim yn bosibl i gael gwared ar beryglon i'r unigolyn mewn unrhyw fodd rhesymol ymarferol arall, yna bydd Cyfarpar Diogelu Personol yn cael eu rhoi i weithwyr a chyflogai. Pan fydd y cyfarpar yn cael ei roi, rhaid ei ddefnyddio'n iawn pryd bynnag y mae'r gweithiwr yn agored i niwed o'r peryglon sydd wedi cael eu nodi. Bydd gweithwyr yn derbyn hyfforddiant priodol yn ôl yr angen.

Dim ond pan does dim modd cael gwared ar y risg y mae'n amddiffyn yn effeithiol trwy unrhyw fodd arall y bydd y PPE yn cael ei roi i weithiwr. Ym mhob sefyllfa, PPE fydd y dewis olaf er mwyn cyflawni gofyniad statudol. Bydd yn cael ei ddarparu yn rhad ac am ddim.

Bydd Sikhiaid sy'n gwisgo twrban yn cael eu heithrio rhag gwisgo amddiffyniad pen wrth weithio ar safleoedd adeiladu.

**DIGWYDDIADAU/DAMWEINIAU**

Cyfrifoldeb pob gweithiwr yw adrodd ar ddigwyddiadau/damweiniau, waeth pa mor fach, a bydd yn cael ei gofnodi ar y ffurflen briodol [HS5(A)].

(i) Ymchwiliad i Ddigwyddiad/Ddamweiniau:

Bydd y Rheolwr Llinell priodol yn sicrhau bod pob digwyddiad/damwain yn cael ei ymchwilio cyn gynted â phosibl i sefydlu achosion, pwy oedd yn gysylltiedig, ble a pham y digwyddodd a sut y mae modd atal i hyn ddigwydd eto. Yn dibynnu ar yr amgylchiadau, efallai y bydd angen ymchwiliad manwl.

(ii) Adrodd i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch:

Bydd y gweithdrefnau adrodd yn unol â'r Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR) cyfredol.

Yn ystod oriau gwaith arferol, cyfrifoldeb Carfan Iechyd a Diogelwch

Corfforaethol y Cyngor yw rhoi gwybod am ddigwyddiadau. Y tu allan i oriau gwaith arferol, dros y penwythnos neu ar Wŷl y Banc er enghraifft, cyfrifoldeb y goruchwyliwr neu'r rheolwr perthnasol yw hyn.

**RHEOLI SYLWEDDAU PERYGLUS I IECHYD (COSHH)**

Bydd trefniadau ar gyfer defnyddio unrhyw gemegau neu sylweddau yn unol â gofynion y Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd. Bydd gwybodaeth yn cael ei chasglu am yr holl gynhyrchion sy'n cael ei ddefnyddio, asesiadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd a'r wybodaeth sy'n cael ei rhoi i weithwyr ynglŷn â'u hiechyd a'u diogelwch wrth ddefnyddio'r cynnyrch.

**OFFER**

Bydd rheolwyr yn sicrhau bod eitemau a deunyddiau ar gael sy'n ddiogel i'w defnyddio yn y gwaith pan byddan nhw'n cael eu defnyddio yn unol â chyfarwyddiadau'r cyflenwyr. Rhaid cael gwybodaeth gan gyflenwyr a'i dosbarthu fel y bo'n briodol.

(i) Peiriannau ac Offer:

Bydd peiriannau ac offer yn addas at y diben ac yn cael eu harchwilio a'u cynnal yn unol â'r safonau sy'n angenrheidiol i sicrhau na fydd methiannau sy'n arwain at anafiadau personol, afiechyd neu ddifrod difrifol i eiddo.

(ii) Llogi Offer a Chyfarpar:

Bydd rheolwyr sy'n llogi peiriannau ac offer symudol yn sicrhau eu bod yn addas at y diben a bod gweithwyr yn gymwys ac wedi'u hyfforddi i'w defnyddio. Bydd peiriannau ac offer yn cael eu cynnal a'u cadw a'u gwirio'n briodol cyn eu defnyddio.

**STORIO DEUNYDD**

Cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol, bydd deunyddiau'n cael eu storio er mewn eu cadw mewn cyflwr addas i ganiatáu eu lleoli a'u casglu'n ddiogel ac yn unol â gofynion statudol.

**PEIRIANNEG SIFIL A GWAITH ADEILADU**

Bydd gwaith Peirianneg Sifil ac adeiladu yn cael eu cynnal yn unol â'r holl ddeddfwriaeth briodol, er enghraifft, y Rheoliadau Adeiladu (Dylunio a Rheoli) (CDM). Bydd y Cyngor yn cymhwyso'r rheoliadau mewn perthynas â chyfrifoldebau cleientiaid, dylunwyr a chontractwyr ac ati, ar bob prosiect sy'n cael eu heffeithio.

**GWYBODAETH, CYFARWYDDIAD, HYFFORDDIANT A GORUCHWYLIAETH**

Bydd rheolwyr yn hysbysu gweithwyr o'r trefniadau ar gyfer cyfleu gwybodaeth sy'n ymwneud â materion iechyd a diogelwch, sy'n cynnwys

erthyglau a sylweddau i'w defnyddio yn y gweithle.

Rhaid dadansoddi anghenion hyfforddi a threfnu rhaglenni hyfforddi.

Rhaid sicrhau bod gweithwyr yn ymwybodol o'r gweithdrefnau ar gyfer tynnu sylw eu rheolwr llinell at faterion iechyd a diogelwch. Bydd gweithwyr naill ai'n cael yr holl wybodaeth sy'n angenrheidiol iddyn nhw gyflawni eu dyletswyddau, neu'n gallu cael gafael arni, gan roi sylw priodol i'w hiechyd a'u diogelwch personol, ac eraill.

## ASBESTOS

Rhaid rhoi blaenoriaeth uchel i reoli asbestos yn sefydliadau'r Cyngor. Mae unrhyw weithiwr sy'n debygol o darfu ar asbestos yn ystod ei waith, neu sy'n goruchwylio gweithwyr sy'n cyflawni'r dyletswyddau yma, yn derbyn y lefel gywir o wybodaeth, cyfarwyddyd a hyfforddiant i'w galluogi i gyflawni ei waith yn ddiogel ac yn gymwys a heb risg iddo'i hun nac i eraill. Bydd rhaglen yn cael ei datblygu lle bydd pob sefydliad yn cael ei arolygu a chamau'n cael eu cymryd yn ôl yr angen a bydd cofrestr asbestos yn cael ei chadw.

## GWEITHIO MEWN MANNAU CYFYNG

Mae gweithio mewn mannau cyfyng yn weithgaredd risg uchel iawn, a'r prif risg mewn rhai achosion yw pan fydd nwyon yn cronni, anweddau neu hylifau peryglus. Pan fydd gofyn i weithwyr weithio mewn mannau o'r math yma, bydd y rhain yn cael eu nodi a bydd system waith ddiogel yn cael ei ffurfioli. Fydd unrhyw weithiwr ddim yn gweithio mewn lle cyfyng heb ddilyn system waith ddiogel (e.e. system 'Trwydded i Weithio').

## IECHYD GALWEDIGAETHOL

Bydd y Cyngor yn annog ac yn hyrwyddo lefelau uchel o les corfforol, meddyliol a chymdeithasol gweithwyr tra eu bod yn y gwaith. Bydd pob agwedd iechyd ar brosesau a gweithdrefnau gwaith sydd â'r modd i effeithio'n andwyol ar y berthynas rhwng gwaith ac iechyd yn cael ei hadolygu'n rheolaidd a bydd pobl polisi a gweithdrefn yn cael eu gweithredu.

Bydd archwiliadau meddygol a mesurau rhagofalus fel imiwneiddio yn cael eu cynnig i weithwyr sydd â dyletswyddau lle mae'n nhw'n agored i beryglon penodol.

## GWEITHIO AR UCHDER;

Bydd trefniadau yn cael eu gwneud ar gyfer diogelwch gweithwyr sy'n ofynnol i weithio mewn swyddi â chyfrifoldebau o weithio ar uchder. Mae hyn yn cynnwys y dull mynediad ac allanfeydd yn ogystal ag amddiffyn rhag cwympiadau. Bydd Rheoliadau Gwaith ar Uchder yn cael eu dilyn yn ogystal ag unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall.

**GWEITHIO GER NEU AR BRIFFYRDD**

Bydd yr holl waith ar briffyrdd neu'n agos atyn nhw yn cydymffurfio â'r safonau sy'n cael ei nodi ym Mhennod 8 o Ddeddf Priffyrdd 1980 a'r holl ddeddfwriaeth berthnasol arall a nodir ym Mhennod 8 o Ddeddf Priffyrdd 1980 a'r holl ddeddfwriaeth berthnasol arall.

**RHEOLI SŴN**

Cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol, bydd y graddau y mae gweithwyr yn dod i gysylltiadau â sŵn yn lleihau. Bydd lefelau sŵn yn cael eu hasesu a lle mae'r lefelau'n uwch na'r gwerth gweithredu amlygiad is, bydd trefniadau ar gyfer amddiffyn gweithwyr ac eraill yn cael eu cymryd yn unol â'r Rheoliadau Rheoli Sŵn yn y Gwaith.

Bydd offer/peiriannau yn cael eu hasesu a, lle bo angen, bydd lefelau sŵn yn cael eu gostwng i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol.

**CYMORTH CYNTAF**

Bydd y Cyngor yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf yn y Gwaith) trwy sicrhau darpariaeth ddigonol o gymorth cyntaf/unigolion penodedig. Bydd enwau cynrychiolwyr cymorth cyntaf/unigolion penodedig dynodedig yn cael eu harddangos a'u dosbarthu. Bydd pob cynrychiolydd cymorth cyntaf/person penodedig yn cael eu hyfforddi i'r safon briodol a dim ond pan fydd y dystysgrif briodol wedi'i chyhoeddi y bydd caniatâd iddyn nhw weithredu yn gynrychiolydd cymorth cyntaf.

**GWARCHOD PEIRIANNAU**

Bydd peiriannau'n cael eu gwarchod yn iawn tra'u bod yn cael eu defnyddio, yn unol â'r Rheoliadau Darparu a Defnyddio Offer Gwaith a Safonau Diogelu Peiriannau Prydeinig. Bydd gweithwyr yn sicrhau bod y gwarchodwyr sy wedi'u darparu'n cael eu defnyddio'n gywir.

**CODI A CHARIO**

Bydd asesiadau codi a chario yn cael eu cynnal i gydymffurfio â'r Rheoliadau Gweithrediadau Codi a Chario a bydd mesurau'n cael eu cyflwyno i leihau'r risg o anaf.

**MAMAU NEWYDD A MENYWOD BEICHIOG**

Bydd trefniadau'n cael eu gwneud i sicrhau iechyd, diogelwch a lles mamau newydd a menywod beichiog. Bydd asesiadau risg penodol yn cael eu cynnal a bydd yr holl beryglon sy'n cael eu nodi'n cael eu rheoli'n addas.

**TRWYDDEDAU AR GYFER GWEITHIO**

Bydd angen i rai adrannau weithredu systemau a gweithdrefnau caniatâd i weithio (e.e. gweithio mewn mannau cyfyng, gwaith lle mae gwres neu foltedd

uchel yn berthnasol, ac ati). Bydd y rhain yn cael eu dilyn yn gydwybodol a bydd cofnod yn cael ei gadw o'r achlysuron y byddan nhw'n cael eu defnyddio.

## RHEOLI'R AMGYLCHEDD

Bydd y safonau amgylcheddol priodol ar waith a bydd y safonau hynny'n cael eu monitro. Bydd y rhai sy'n ymwneud â gwres, golau ac awyru yn unol â Rheoliadau'r Gweithle (Iechyd, Diogelwch a Lles).

## TÂN

Bydd y Cyngor yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol sy'n cael eu pennu gan y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 a deddfwriaeth sy'n ymwneud â diogelwch tân mewn adeiladau, gweithdrefnau gwacáu ac ati.

## CYFARPAR SGRÎN ARDDANGOS (DSE)

Bydd trefniadau ar gyfer defnyddio unedau arddangos gweledol yn cydymffurfio â chanllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch dan y Rheoliadau Cyfarpar Sgrîn Arddangos.

## DIOGELWCH TRYDANOL

Mae'r Cyngor yn cydnabod y risgiau sy'n gysylltiedig ag offer trydanol, sy'n cynnwys y risgiau o losgi, trydanu, tân, ffrwydrad a'r broses o ffurfio arc.

Rhaid archwilio, profi a chynnal a chadw offer trydanol cludadwy o bryd i'w gilydd a chadw cofnodion ynghyd â stocrestrau'r offer. Fydd offer sy'n cael ei amau neu sy'n cael ei ganfod yn anniogel ddim yn cael ei ddefnyddio nes iddo gael ei wneud yn ddiogel. Bydd y Cyngor yn trefnu bod y gosodiadau trydanol sefydlog ar safle'r Cyngor yn cael eu profi o bryd i'w gilydd. Mewn rhai amgylchiadau, bydd dyfeisiau cerrynt gweddilliol (RCDs) yn cael eu defnyddio yn fesur rheoli ychwanegol. Bydd pob dyfais yn cael eu gwirio o bryd i'w gilydd hefyd.

## CONTRACTWYR AC IS-GONTRACTWYR

Bydd trefniadau ar gyfer contractwyr sy'n gweithio ar eiddo a gwasanaethau'r Cyngor yn golygu fydd gweithwyr, adeiladau nac asedau eraill ddim yn cael eu peryglu gan weithredoedd contractwyr a fydd contractwyr ddim yn cael eu peryglu gan weithredoedd y Cyngor.

## STRAEN YN Y GWEITHLE

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod straen yn y gweithle yn berygl sydd â'r modd i arwain at afiechyd a bod dyletswydd gyfreithiol arno i reoli hyn yn effeithiol. Bydd y Cyngor yn cymryd gofal rhesymol i sicrhau dydy iechyd ddim yn cael ei roi mewn perygl oherwydd lefelau helaeth a pharhaus o straen sy'n codi o'r modd y mae gwaith yn cael ei drefnu, y modd y mae pobl yn rhyngweithio â'i gilydd, neu'r gofynion o ddydd i ddydd sy'n cael eu rhoi i weithwyr. Bydd y

Cyngor yn mabwysiadu dull Safonau Rheoli'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch o reoli straen sy'n gysylltiedig â gwaith.

**TRAIS YN Y GWEITHLE**

Bydd y Cyngor yn sicrhau bod systemau gwaith priodol ac effeithiol yn cael eu datblygu a'u rhoi ar waith er mwyn sicrhau dydy gweithwyr ddim yn agored i niwed.  Dydy hyn ddim wedi'i gyfyngu i ymosodiad corfforol ond mae'n cynnwys ymddygiad ymosodol geiriol ac ymddygiad gwahaniaethol.

**OSGOI PERYGL O WASANAETHAU TANDDAEAROL A CHEBLAU UWCHBEN**

Bydd gweithwyr yn derbyn cyfarwyddyd digonol ar ddefnyddio dyfeisiau lleoli cebl, arferion cloddio diogel, gweithdrefn ar gyfer cysylltu â'r sefydliadau perthnasol a gweithdrefnau ar gyfer gweithio o amgylch neu ger ceblau sydd uwchben.

**GWEITHIO YN YR AWYR AGORED A CHANSER Y CROEN**

Mae'r Cyngor yn cydnabod y risg o fod mewn gormod o gysylltiad ag ymbelydredd golau uwchfioled pan fydd gweithwyr yn gweithio y tu allan, yn enwedig yn ystod misoedd yr haf.  Bydd yn ofynnol i reolwyr asesu'r risgiau a gweithredu mesurau rheoli priodol, a allai gynnwys ei gwneud yn ofynnol i weithwyr orchuddio eu croen rhag golau'r haul yn y gweithle.

**DIRGRYNIAD LLAW-FRAICH**

Bydd yr holl beiriannau/offer sy'n debygol o allyrru lefelau uchel o ddirgryniad yn cael eu nodi a bydd risgiau'n cael eu hasesu.  Mae modd gweithredu mesurau rheoli megis monitro dirgryniad, cyfundrefnau cynnal a chadw priodol, darparu menig, prynu peiriannau dirgryniad isel, cylchdroi gwaith ac ati.  Rhaid rhoi hyfforddiant i weithwyr sy'n defnyddio peiriannau/offer dirgrynol.  Rhaid i weithwyr fod yn gyfarwydd â'r risgiau sy'n cael eu cyflwyno a'r mesurau rheoli sy'n ofynnol.  Efallai y bydd gofyn i weithwyr fynd i archwiliadau meddygol cyfnodol os ydyn nhw'n defnyddio peiriannau dirgrynol o risg uchel. Bydd y Cyngor yn cadw cofnodion iechyd ar gyfer gweithwyr o dan oruchwyliaeth iechyd.

**CLEFYD Y LLENG FILWYR (LEGIONELLA)**

Mae modd i facteria Legionella fod yn bresennol mewn unrhyw system ddŵr ac mae modd i'r bacteria achosi salwch tebyg i niwmonia, gan gynnwys y clefyd y lleng filwyr mwyaf difrifol, a all fod yn angheuol.

Bydd y Cyngor yn cydymffurfio â'i ddyletswyddau o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati. 1974 a deddfwriaeth ddilynol i reoli'r risg o legionella mewn systemau dŵr adeiladau sydd o dan ei reolaeth.

**DATGANIADAU'R POLISI IECHYD A DIOGELWCH CORFFORAETHOL**

Mae Datganiadau y Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol wedi'u datblygu. Mae pob Cyfarwyddwr y Gyfadran yn gyfrifol am weithredu darpariaeth pob polisi a pharatoi strategaeth maes gwasanaeth.

Mae'r polisïau sy wedi'u datblygu hyd yma isod a byddan nhw'n cael eu diwygio yn sgil newid.  Bydd polisïau eraill yn cael eu datblygu, fel y bo'n briodol.

| | |
|---|---|
| Iechyd a Diogelwch 1 | Datganiad y Polisi Iechyd a Diogelwch Cyffredinol |
| | Polisïau Penodol: |
| Iechyd a Diogelwch 2 | Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) |
| Iechyd a Diogelwch 3 | Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) |
| Iechyd a Diogelwch 4 | Codi a Chario |
| Iechyd a Diogelwch 5 | Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR) |
| Iechyd a Diogelwch 6 | Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith |
| Iechyd a Diogelwch 7 | Rheoli Sŵn yn y Gwaith |
| Iechyd a Diogelwch 8 | Menywod Beichiog yn y Gwaith |
| Iechyd a Diogelwch 9 | Cymorth Cyntaf yn y Gwaith |
| Iechyd a Diogelwch 10 | Trydan yn y Gweithle |
| Iechyd a Diogelwch 11 | Cyfarpar Sgrîn Arddangos (DSE) |
| | [Cynllun HS11A (Profion Llygaid a Golwg a Chyfarpar Cywiro Arbennig)] |
| Iechyd a Diogelwch 12 | Iechyd, Diogelwch, a Lles yn y Gweithle |
| Iechyd a Diogelwch 13 | Trais yn y Gwaith |
| Iechyd a Diogelwch 15 | Ymwelwyr yn y Gweithle |
| Iechyd a Diogelwch 16 | Gweithgareddau Antur i Bobl Ifainc |
| Iechyd a Diogelwch 17 | Camddefnyddio Alcohol a Sylweddau |
| Iechyd a Diogelwch 18 | Ysmygu yn y Gweithle |

| | |
|---|---|
| Iechyd a Diogelwch 19 | Straen yn y Gweithle |
| Iechyd a Diogelwch 20 | Tân |
| Iechyd a Diogelwch 21 | Offer Gwaith |
| Iechyd a Diogelwch 22 | Gweithio ar eich pen eich hun |
| Iechyd a Diogelwch 23 | Rheoli Contractwyr |
| Iechyd a Diogelwch 24 | Rheoli Asbestos |
| Iechyd a Diogelwch 25 | Rheoli Heintiau |
| Iechyd a Diogelwch 26 | Polisi System Dirgryndod Llaw-Braich (SDLlB) |
| Iechyd a Diogelwch 26 | Rheoli Clefyd y Lleng Filwyr |

**DIWEDDARU**

Bydd yr holl ddogfennaeth yn cael ei hadolygu a'i diweddaru i adlewyrchu newidiadau mewn polisi, trefniadaeth a threfniadau neu safonau a deddfwriaeth. Bydd gweithwyr yn cael eu hysbysu yn unol â hynny.

## **RHESTR WIRIO I REOLWYR**

| | ✓ Fel y bo'n briodol | | |
|---|---|---|---|
| | Dd/ B | Ydy | Nac oes |
| • Yn unol â'r gofynion sy'n cael eu nodi yn Adran 2 (3) yn nogfen Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith, ac ati. Yn unol â Deddf 1974, a oes copi diweddar o'r Polisi wedi'i ddwyn at sylw pob gweithiwr?<br><br>**Noder**: Dydy hi ddim yn angenrheidiol bod pob gweithiwr yn derbyn copi o'r Polisi. Byddai'n ddigonol pe bai'r Polisi'n cael ei arddangos mewn man amlwg ar hysbysfyrddau, a bod gweithwyr yn cael gwybod am ei fodolaeth. | | | |
| • Ydych chi wedi sicrhau fod y gweithwyr yn gwybod am eu cyfrifoldebau yn unol â'r polisi? | | | |

Wedi'i chwblhau gan: ________________
(Llofnod)

Enw: ___________________
(Llythrennau bras)

Swydd: ___________________

Dyddiad: ___________________

Wedi'i gadarnhau gan: __________________
(Llofnod)

Enw: ____________________
(Llythrennau bras)

Swydd: ____________________

Dyddiad: ______________